


Awgrymiadau Gwych i Ymgeiswyr - Cyfweiliadau Wyneb yn Wyneb

Ionawr 2021



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau, rydych chi wedi cyflwyno eich ffurflen gais ar-lein ac rydych chi wedi cael eich gwahodd am gyfweiliad gyda ni yng Nghonwy. Efallai bydd rhai cyfweiliadau neu brosesau dethol yn cael eu cynnal mewn person neu ar fideo. Mae gennym awgrymiadau ar wahân ar gyfer cyfweiliadau ar-lein ond bydd yr arweiniad hwn yn canolbwyntio ar sefyllfaoedd lle byddwn yn cwrdd wyneb yn wyneb i ddod i adnabod ymgeiswyr.

Rydym am gael y gorau ohonoch chi, felly rydym wedi llunio rhai awgrymiadau i'ch helpu chi yn eich cyfweiliad.

Deall proses Conwy:

- Bydd gan bob panel cyfweld rhestr o gwestiynau penodol yn barod i'w gofyn i chi
- Caiff y rhain eu sgorio i'w helpu i benderfynu pwy sy'n gweddu orau i'r rôl
- Bydd cwestiynau yn profi'r sgiliau ac arbenigedd sydd wedi'u rhestru yn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Manylion am yr Unigolyn
- Mae'n bosibl y bydd y panel yn cymryd eu tro i ofyn cwestiynau
- Byddan nhw'n cymryd nodiadau, peidiwch â phoeni, byddan nhw'n dal i wrando.

Paratoi i lwyddo:

- Cynlluniwch o flaen llaw gan wneud yn siŵr eich bod yn gwybod sut i gyrraedd y lleoliad, pa mor hir y bydd yn ei gymryd a pha fath o barcio a chludiant cyhoeddus sydd ei angen - efallai gwneud y daith cyn diwrnod y cyfweiliad
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod enw'r person y byddwch yn gofyn amdano ar ôl cyrraedd y lleoliad
- Gwnewch ymchwil am y sefydliad neu'r adran - mae llawer o wybodaeth ar ein gwefan
- Gwisgwch ddillad priodol - gall gwisgo'n smart a phroffesiynol gynyddu eich hyder hefyd



Cynnwys

Llongyfarchiadau	1
Deall proses Conwy:	1
Paratoi i lwyddo:	1
Y Cyfweiliad:	2
Gwiriadau a dilysu:	2
Gorffen y cyfweiliad:	2



- Ceisiwch osgoi gwisgo eitemau sy'n tynnu sylw ond peidiwch â bod ofn gwisgo lliwiau bloc - mae'r argraff gyntaf yn cyfri ac rydych eisiau sefyll allan
- Mae'n bosibl y bydd rhai rolau yn golygu bod angen i chi roi cyflwyniad mewn cyfweiliad ac anfon copi ar e-bost atynt ddiwrnod o flaen llaw rhag ofn y bydd problemau technegol - ceisiwch ymarfer yr amseru o flaen llaw a gwneud yn siŵr eich bod wedi rhoi gwirydd sillafu drwyddo
- Ceisiwch baratoi rhai atebion y gallwch adeiladu arnynt, meddyliwch am enghreifftiau o'ch cryfderau, gwendidau neu gyflawniadau rydych chi'n falch ohonynt
- Rydym bob tro yn ei chael yn anodd meddwl am ein rhinweddau cadarnhaol, efallai dylech ysgrifennu hyd at 30 gair i ddisgrifio eich hun a'ch sgiliau er mwyn eich helpu i fagu hyder
- Bydd y panel eisiau dod i'ch adnabod chi, beth am baratoi ateb ar gyfer dweud pam rydych chi'n teimlo mai chi fyddai orau ar gyfer y swydd a beth y gallwch ei gynnig i'r tîm gan ddefnyddio rhai o'r geiriau wedi'u paratoi.

Y Cyfweiliad:

- Byddwch yn brydlon, a chynlluniwch i gyrraedd tua 10 munud cyn y cyfweiliad fel eich bod yn teimlo'n barod
- Meddyliwch am sut y byddwch yn cyfarch ar ôl cyrraedd
- Meddyliwch am iaith y corff - eisteddwch yn syth
- Gwenwch, ceisiwch ymlacio a bod yn chi eich hun
- Fel arfer, bydd y panel yn dechrau gyda chwestiwn "setlo" a sgwrsio i ddod i'ch adnabod chi
- Peidiwch â rwdlan gan gynnig atebion gyda ffocws iddyn nhw
- Peidiwch â phoeni os ydych yn crwydro oddi ar y testun, gofynnwch iddyn nhw ailadrodd y cwestiwn er mwyn mynd yn ôl at y testun
- Peidiwch ag anghofio bod pawb yn mynd yn nerfus, dydi cyfweiliadau ddim yn sefyllfaoedd naturiol i unrhyw un
- Byddwch yn onest bob tro
- Meddyliwch am bethau, peidiwch â theimlo bod yn rhaid i chi frysio, cymrwch lymaid o ddŵr wrth i chi feddwl am eich ateb
- Peidiwch â bod ofn gofyn i'r panel ailadrodd cwestiynau
- Ceisiwch fod yn llonydd a pheidiwch â thynnu wynebau gwirion, os ydych chi'n gwybod eich bod chi'n gwneud hyn, beth am ymarfer rheoli hyn o flaen llaw?
- Cymerwch nodiadau i edrych arnynt i'ch helpu, ond peidiwch â'u darllen fel sgript
- Cofiwch wneud cyswllt llygad
- Cofiwch roi enghreifftiau gyda'ch atebion, atebion llawn sy'n cael y sgôrâu gorau.

Gwiriadau a dilysu:

- Bydd y panel yn gofyn am unrhyw fylchau o ran hanes cyflogaeth neu unrhyw beth maen nhw am ei wirio ar eich ffurflen gais felly gwnewch yn siŵr bod gennych gopi ohoni wrth law
- Gwnewch yn siŵr bod gennych gopiâu o'ch tystysgrifau, dull adnabod neu ddogfennau hawl i weithio gyda chi oherwydd mae'n bosibl y bydd angen i chi eu cyflwyno yn ystod neu ar ôl y cyfweiliad os ydych yn llwyddiannus
- Os cewch eich penodi, gofynnir am gopiâu gwreiddiol o'r dogfennau hyn.

Gorffen y cyfweiliad:

- Bydd y panel yn rhoi amser i chi ofyn cwestiynau, os oes gennych chi rai
- Byddan nhw hefyd yn rhoi gwybod i chi pa bryd fyddan nhw'n bwriadu gwneud penderfyniad a sut byddan nhw'n cysylltu â chi.



POB LWC!